# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 : Adolygiad 2024/25

**Allwedd**

Gwybodaeth gyda ~~llinell~~ trwy'r testun wedi eu tynnu allan yn adolygiad 2024/25

**Dyma isod addasiadau i [Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28](#) cytunwyd arnynt mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2024**

**GWYNEDD YFORY - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc**

| Adran | Prosiect | Disgrifiad Byr | Sylwadau / Eglurhad | Rhif Tudalen ar y cynllun presennol | Newydd / Diwygio / |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu | Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir yn dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, ac yn benodol ardal Bangor, Cricieth a Bontnewydd, byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd. ~~Byddwn hefyd yn gorffen ein adolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y trefniant gorau i ddysgwyr yr ardal.~~ | Yng nghyfarfod Cabinet 28 Tachwedd 2023 penderfynwyd i beidio symud ymlaen hefo'r adolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon. | 9 | Diwygio |
| Addysg | Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd | Llunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd gan ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y blaenoriaethau er sicrhau cyfundrefn addysg wydn, ynghyd â darpariaeth a phrofiadau addysgol o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc y sir | | n/a | Newydd |
| Addysg | Adolygu a gwella'r ystod o | Mae angen adolygu a gwella'r ystod darpariaethau cynhwysiad sydd ar gael i | | n/a | Newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd. | ddysgwyr gyda anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol. Mae anghenion y dysgwyr hyn wedi cynyddu, gyda effaith y pandemig i weld yn glir ac yn hirdymor. | | | |
| Addysg | ~~Cinio ysgol am ddim~~ | ~~Bydd holl blant ysgolion cynradd y sir yn cael cinio ysgol am ddim, a byddwn yn ystyried os yw'n bosib ymestyn hyn i ddisgyblion uwchradd hefyd. O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r mannau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cael cinio ysgol.~~ | ~~Mae pob plentyn cynradd yn gallu manteisio ar y cynnig o ginio ysgol am ddim ers Medi 2023, sef blwyddyn o flaen yr amserlen genedlaethol. Trosglwyddo i waith dydd i ddydd y gwasanaeth yng nghyd-destun hyrwyddo ac annog cynifer o deuluoedd a phosib i fanteisio ar y cynnig.~~<br>~~Nid oes arweiniad gan Lywodraeth Cymru wedi dod hyd yma ynglŷn ag ymestyn y cynnig i'r ysgolion uwchradd, ac felly nid oes adnoddau ar gael gan yr Adran/Cygnor i ystyried yr uwchradd ar hyn o bryd~~ | 8 | Diwygio – trosglwyddo i waith dydd i ddydd yn ystod 2024-25 |

**GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng**

Dim newidiadau.

**GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau**

Dim newidiadau.

**GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

| Adran | Prosiect | Disgrifiad Byr | Sylwadau / Eglurhad | Rhif Tudalen ar y cynllun presennol | Newydd / Diwygio |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion | ~~Cefnogaeth Ataliol yn Lleol~~ | Byddwn yn gweithio'n ataliol i gefnogi a diogelu unigolion yn lleol drwy hybu eu llesiant a'u hannog i gyfrannu o fewn eu cymunedau. Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Cyfrannu at ddatblygiadau iechyd a gofal ym Mangor a Phenygroes.<br>• Ehangu ein rhwydwaith o hybiau cymunedol ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Ganolfan Dolfeurig, Dolgellau.<br>• Cyhoeddi rhaglen o weithgareddau a chyfleon i unigolion a gofalwyr ar draws y sir.<br>• Sicrhau fod Gwynedd yn sir oed gyfeillgar a bod trigolion o bob oed yn medru cael bywyd da yn eu cymuned leol.<br>• Rhannu gwybodaeth gyda'n cymunedau'n fwy effeithiol a gwella ein dulliau o ymgysylltu wrth ddatblygu'n gwasanaethau. | Yn dilyn dymuniad i symleiddio'r disgrifiad a chanolbwyntio ar faterion trawsnewidiol mae prosiectau yn y maes Oedolion o fewn Maes Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar wedi eu hail-becynnu o dan 5 prosiect newydd, sef:<br>• Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol<br>• Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal<br>• Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned<br>• Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth<br>• Llechen Lân | 20 | Diwygio |
| Oedolion | ~~Byw'n Annibynnol~~ | Mae anghenion gofal unigolion y sir yn newid ac mae unigolion yn byw'n hirach. Mae angen i ni | Yn dilyn dymuniad i symleiddio'r disgrifiad a chanolbwyntio ar | 20 | Diwygio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | felly addasu ein gwasanaethau i alluogi bobl i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau.<br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Ehangu ein darpariaeth gofal 1 ac ysbaid a darparu rhagor o opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag ystod eang o anghenion, megis Tai Gofal Ychwanegol.<br>• Cydweithio ar draws sectorau i sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cartref wedi'u teilwra ac ar gael yn brydlon pan fo'u hangen.<br>• Arwain ar Gynllun Gofalwyr ar draws y maes gofal Oedolion a Phlant i gefnogi gwaith amhrisiadwy gofalwyr di-dâl ar draws y sir.<br>• Sicrhau ein bod yn defnyddio teleofal a thechnoleg i'w lawn botensial i hybu annibyniaeth unigolion.<br>• Hwyluso'r broses o dderbyn a darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol drwy ystyried dulliau megis Waled Rhithiol. | faterion trawsnewidiol mae prosiectau yn y maes Oedolion o fewn Maes Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar wedi eu hail-becynnu o dan 5 prosiect newydd, sef:<br>• Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol<br>• Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal<br>• Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned<br>• Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth<br>• Llechen Lân | | |
| Oedolion | ~~Gofal Arbenigol o Ansawdd~~ | Byddwn yn sicrhau bod gofal priodol ac arbenigol ar gael yn amserol; a hynny ar draws ein holl darpariaethau gofal.<br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Sicrhau darpariaeth nyrsio a dementia digonol ar draws y sir gan gynnwys datblygu gwlâu nyrsio ar safle Penrhos, Pwllheli.<br>• Sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i'n galluogi i | Yn dilyn dymuniad i symleiddio'r disgrifiad a chanolbwyntio ar faterion trawsnewidiol mae prosiectau yn y maes Oedolion o fewn Maes Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar wedi eu hail-becynnu o dan 5 prosiect newydd, sef:<br>• Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol | 20 | Diwygio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd.<br>• Datblygu ein gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau pwyslais digonol ar lesiant unigolion.<br>• Cryfhau ein gallu i gefnogi darparwyr gofal i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.<br>• Cyfrannu at brosiect Cynllunio'r Gweithlu i sicrhau sylw priodol i heriau a chyfleon penodol y maes gofal.<br>• Rhoi trefniadau newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith i warchod hawliau pobl sy'n derbyn gofal yn y sir. | • Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal<br>• Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned<br>• Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth<br>• Llechen Lân | | |
| Oedolion | Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol | Byddwn yn moderneiddio ein cartrefi gofal, yn diweddaru ein hadnoddau cymunedol ac yn ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i drigolion Gwynedd.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Tai Gofal Ychwanegol - Datblygu dros 100 o unedau newydd ym Mhenyberth, Frondeg (Pwllheli), Canolfan Lleu (Penygroes) a Dolgellau.<br>• Cartrefi Preswyl:<br>  ◦ Ailddatblygu Plas Gwilym, Penygroes.<br>  ◦ Uwchraddio Hafod Mawddach a Cefn Rodyn.<br>  ◦ Agor Uned Dementia yng Nghartrefi Bryn Blodau a Plas Hedd.<br>  ◦ Cynllunio datblygiadau dementia yn Plas Pengwaith | | n/a | Newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Agor cartref nyrsio a dementia newydd yn Penyberth<br>• Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned – isafswm o 6 tŷ wedi eu lleoli ar hyd a lled y sir er mwyn cynnig cartrefi gofal addas a diogel.<br>• Gwaith comisiynu ar y cyd gyda'r Adran Tai i ddeall y galw am lety gofal yn y dyfodol. | | | |
| Oedolion | Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal | Byddwn yn galluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired a phosib o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen i allu manteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Mabwysiadu a hyrwyddo system gwybodaeth gymunedol, Dewis<br>• Integreiddio system therapi galwedigaethol rithiol, AskSarah, i'n gwefan<br>• Datblygu ein defnydd o Ofal Alluogwyd drwy Dechnoleg (TEC)<br>• Hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth Teleofal<br>• Gwneud defnydd o roboteg i alluogi byw'n annibynnol<br>• Datblygu ein system Taliadau Uniongyrchol drwy ddefnyddio waled rithiol | | n/a | Newydd |
| Oedolion | Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned | I sicrhau ein bod yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn medru newid ein diwylliant a sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd cynhwysfawr i'r dyfodol. | | n/a | Newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Cydleoli timau oedolion gyda nyrsys cymuned a therapyddion iechyd<br>• Datblygu systemau cydweithio fel un tîm o amgylch yr unigolyn drwy system Tîm Adnoddau Cymunedol<br>• Cydweithio i alinio'r Timau Adnoddau Cymunedol i'r Clystyrau Iechyd Cynradd<br>• Datblygu trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl cymunedol | | | |
| Oedolion | Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth | Byddwn yn hyrwyddo cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth. Ymysg cynlluniau eraill, byddwn yn gwella'r ddarpariaeth yn ein Canolfannau Dydd Anableddau Dysgu yn Dolfeurig yn Nolgellau a Frondeg, Caernarfon. | | n/a | Newydd |
| Oedolion | Llechen Lân | Byddwn yn paratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf. | | n/a | Newydd |

**GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.**

| Adran | Prosiect | Disgrifiad Byr | Sylwadau / Eglurhad | Rhif Tudalen ar y cynllun presennol | Newydd / Diwygio |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg | Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg, yn cyfrannu at Cymraeg 2050, ac yn adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar yn y maes gan Lywodraeth Cymru. | | n/a | Newydd |

**GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd**

Dim newidiadau.

**GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon**

Dim newidiadau.